

## Y CYNGOR DINAS A SIR CAERDYDD SIR

Cyfarfu'r Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar Dydd Iau, 24 Medi 2020 i drafod y busnes a nodir yn y wŷs Cyngor dyddiedig Dydd Gwener, 18 Medi 2020.

Yn

bresennol: Y Cynghorydd Sir De'Ath (Arglwydd Faer)

Cynghorwyr Sir Ahmed, Asghar Ali, Dilwar Ali, Berman, Bowden, Bowen-Thomson, Boyle, Bradbury, Bridgeman, Burke-Davies, Carter, Cowan, Cunnah, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ford, Gibson, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Hinchey, Hopkins, Howells, Hudson, Jacobsen, Jenkins, Jones-Pritchard, K Jones, Owen Jones, Joyce, Kelloway, Lancaster, Lay, Lent, Lister, Mackie, McGarry, McKerlich, Melbourne, Merry, Michael, Molik, Morgan, Naughton, Owen, Parkhill, Jackie Parry, Keith Parry, Patel, Phillips, Dianne Rees, Mia Rees, Robson, Sandrey, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Graham Thomas, Huw Thomas, Lynda Thorne, Walker, Weaver, Wild, Williams, Wong a/ac Wood

## 62 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb ar gyfer y cyfarfod hwn.

## 63 : DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaed y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

Cynghorydd	EITEM	Natur y Buddiant
Y Cyng. Mackie	Eitem 7	Buddiant Personol - Aelod teulu'n Bennaeth y Gwasanaethau Gofal Integredig
Y Cyng. Mackie	Eitem 10	Buddiant Personol, Perchennog Eiddo ar Heol y Porth
Y Cyng. Joel Williams	Eitem 10	Buddiant Personol - Perchennog Eiddo ar Heol y Porth - Cyfarwyddwr Cartrefi Gofal Cartref a Diverse Cymru - Aelodau o'r teulu'n cael eu cyflogi gan y Cyngor.
Y Cyng. Bowen-Thompson	Eitem 10	Buddiant Personol - Prif Weithredwr Cymru Ddiogelach

Y Cyng. Naughton	Eitem 10	Buddiant Personol - Aelod o'r teulu'n cael ei gyflogi gan y Cyngor.
Y Cyng. Lister	Eitem 10	Buddiant Personol - Aelod o'r teulu'n derbyn tai cymdeithasol
Y Cyng. Simmons	Eitem 10	Buddiant Personol - Aelod o'r Bwrdd ac Ymddiriedolwr ACE (Caerau)
Y Cyng. Henshaw	Eitem 10	Buddiant Personol - Aelodau o'r teulu'n cael eu cyflogi gan y Cyngor.
Y Cyng. Ebrahim	Eitem 10	Buddiant Personol - Aelod o'r teulu'n cael ei gyflogi gan y Cyngor.
Y Cyng. Bradbury	Eitem 10	Buddiant Personol - Aelod o ACE, Caerau - Aelod o'r Bwrdd Prosiect Treftadaeth Caerau - Ymddiriedolwr Amgueddfa Stori Caerdydd
Y Cyng. Molik	Eitem 10	Buddiant Personol - Prif Swyddog Gweithredol Golwg Cymru

64 : COFNODION

Llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf 2020 fel cofnod cywir.

65 : CYHOEDDIADAU'R ARGLWYDD FAER

Dymunodd yr Arglwydd Faer ben-blwydd hapus i'r Cynghorydd Jayne Cowan.

66 : ADRODDIAD LLYWODRAETHU

Cynigiodd y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd y Cyngor, yr adroddiad.

Nod yr adroddiad oedd galluogi'r Cyngor i ystyried diweddariadau i'w drefniadau llywodraethu yn ystod y cyfnod ailgychwyn pan amharwyd ar weithrediadau busnes arferol oherwydd cyfyngiadau'r llywodraeth a phwysau ailgychwyn gwasanaethau ychwanegol fel rhan o bandemig COVID-19.

Eiliodd y Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad yr adroddiad.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar yr adroddiad.

Ymatebodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Huw Thomas i faterion a godwyd yn y drafodaeth.

Cafodd yr adroddiad ei DDERBYN:

PENDERFYNWYD:

**CYTUNODD Y Cyngor i'r canlynol:**

- 1. Cytuno i gynnal Cyfarfod Blynyddol y Cyngor 2020 ar 26<sup>ain</sup> Tachwedd 2020, a nodi'r trefniadau addasedig sy'n cael eu datblygu i sicrhau bod y cyfarfod yn ddiogel o ran COVID-19, fel y nodir ym mharagraff 12 o'r adroddiad;**
- 2. Cytuno y dylid penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor yng nghyfarfod Blynyddol y Cyngor yn 2020, ac y gellir ymestyn eu cyfnod yn y swydd tan y Cyfarfod Blynyddol yn 2022;**
- 3. Cytuno y bydd cyfarfodydd llawn y Cyngor o fis Hydref 2020 yn aildechrau trefniadau arferol (o dan Reolau Gweithdrefn Cyfarfod y Cyngor) ar gyfer:**
  - (i) Datganiadau, cwestiynau ac atebion aelodau'r Arweinydd a'r Cabinet, yn unol â Rheol 3(xii) a Rheol 16(a);**
  - (ii) Cwestiynau Ysgrifenedig, o dan Reol 17; a**
  - (iii) Chwestiynau Cyhoeddus, o dan Reol 18.**
- 4. Cytuno, fel mesur dros dro, ar dderbyn deisebau electronig o dan Reol Gweithdrefn Cyfarfod y Cyngor 21, yn amodol ar y gofynion a nodir ym mharagraffau 18 o'r adroddiad, ac yn amodol ar gyflwyno Cynllun Deisebau newydd;**
- 5. Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfarfodydd 1<sup>af</sup> Hydref 2020 i 31<sup>ain</sup> Mawrth 2021, a atodir yn Atodiad A, sydd i'w cynnal o bell hyd nes y gellir cytuno ar unrhyw drefniadau amgen; a dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol i wneud unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i'r Rhaglen Gyfarfodydd, mewn ymgynghoriad â'r Cadeiryddion perthnasol.**
- 6. Nodwch fod trefniadau llywodraethu a'r materion a datblygiadau yn yr adroddiad hwn yn y dyfodol yn cael eu hadolygu'n barhaus oherwydd y newid yn y sefyllfa genedlaethol mewn perthynas â COVID-19 ac anghenion busnes y Cyngor, a'u bod yn derbyn adroddiadau diweddar pellach maes o law.**

67 : ADRODDIAD BLYNYDDOL AR SAFONAU'R GYMRAEG

Cynigiodd y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd y Cyngor, yr adroddiad.

Gofynnodd yr adroddiad i'r Cyngor gytuno ar gynnwys Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2019-20 a'i gymeradwyo, cyn ei gyhoeddi'n ffurfiol yn unol â Safonau'r Gymraeg, o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Owen Jones.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar yr adroddiad.

Ymatebodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Huw Thomas i faterion a godwyd yn y drafodaeth.

Cafodd yr adroddiad ei DDERBYN.

PENDERFYNWYD:

CYTUNODD Y Cyngor i'r canlynol:

- Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2019-20 (ynghlwm fel **Atodiad A**) cyn ei gyhoeddi'n ffurfiol yn unol â Mesur Safonau'r Gymraeg (y Gymraeg ) 2011).

68 : ADRODDIAD LLES STATUDOL BLYNYDDOL CYNGOR CAERDYDD

Cynigiodd y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd y Cyngor, yr adroddiad.

Yr adroddiad hwn oedd adroddiad perfformiad blynyddol y Cyngor, gan ddarparu asesiad o'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni blaenoriaethau Uchelgais Prifddinas y weinyddiaeth fel y'u mynegwyd yng Nghynllun Corfforaethol 2019-22. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn galluogi'r Cyngor i gyflawni nifer o rwymedigaethau statudol, megis cyhoeddi Adroddiad Lles Statudol Blynyddol fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a bodloni'r gofyniad o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i gyhoeddi adroddiad blynyddol.

Eiliodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau, y Cynghorydd Merry, yr adroddiad.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar yr adroddiad.

Ymatebodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Huw Thomas i faterion a godwyd yn y drafodaeth.

Cafodd yr adroddiad ei DDERBYN.

PENDERFYNWYD:

CYTUNODD Y Cyngor i'r canlynol:

- Cymeradwyo Adroddiad Lles Statudol Blynyddol 2019-20

69 : ADRODDIAD STRATEGAETH Y GYLLIDEB 2021/2022 A'R CYNLLUN  
ARIANNOL TYMOR CANOLIG DIWEDDARAF

Cynigiodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, y Cynghorydd Weaver yr adroddiad.

Darparodd yr adroddiad ddiweddariad mewn perthynas â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Cydgrynhoi a diweddarau strategaeth ariannol y Cyngor yn barod ar gyfer paratoi cyllidebau refeniw a chyfalaf 2021/22. Amlinellwyd yr amserlen y bydd proses y gyllideb yn ei dilyn er mwyn cyflwyno Cyllideb 2021/22 i'r Cyngor ym mis Chwefror 2021. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â gwydnwch ariannol y Cyngor.

Eiliwyd yr adroddiad gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Huw Thomas.

Derbyniwyd un Diwygiad i'r adroddiad gan Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol.

Cynigiodd y Cynghorydd Berman y diwygiad.

Yng Nghynnig y Cabinet, dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

"Argymhellir bod y Cyngor yn cyfeirio Fframwaith Amserlen y Gyllideb yn ôl at y Cabinet i'w ailystyried ymhellach er mwyn galluogi amser i'r Cabinet ail-werthuso'r achos busnes dros barhau i gynnwys y cynnig ar gyfer y maes dan do o fewn strategaeth gyllidebol y Cyngor yn sgil yr amgylchiadau economaidd newidiol sydd wedi codi oherwydd pandemig Covid-19."

Eiliwyd y Cynghorydd Taylor y diwygiad.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar yr adroddiad.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Weaver fel cynigydd yr adroddiad i ymateb i'r materion a godwyd yn y drafodaeth. Cadarnhaodd y Cynghorydd Weaver na dderbyniwyd y diwygiad.

Cynigiodd yr Arglwydd Faer bleidleisio ar y diwygiad a gynigiwyd gan y Cynghorydd Berman a'i eilio gan y Cynghorydd Taylor.

COLLWYD y bleidlais.

Cynigiodd yr Arglwydd Faer bleidlais ar yr argymhelliad fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

Cafodd yr adroddiad ei DDERBYN:

PENDERFYNWYD:

CYTUNODD Y Cyngor i'r canlynol:

- Mabwysiadu'r Fframwaith Amserlen Gyllideb a nodir yn Atodiad 2 a chytuno bod y gwaith a amlinellir yn cael ei symud ymlaen gyda'r bwriad o lywio'r gwaith o baratoi'r gyllideb.

70 : ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL YR  
AWDURDOD LLEOL

Cynigiwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Susan Elsmore, yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles.

Dywedwyd wrth y Cyngor mai diben yr adroddiad hwn oedd i'r Cabinet dderbyn 11<sup>eg</sup> Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol (Atodiad 1) fel sy'n ofynnol o dan Ran 8 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Graham Hinchey, Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar yr adroddiad.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles, y Cynghorydd Elsmore, i faterion a godwyd yn y drafodaeth.

PENDERFYNWYD:

CYTUNODD Y Cyngor i'r canlynol:

- Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol 2019/20

71 : DATGANIAD Y CYD-GABINET

Derbyniodd y Cyngor Ddatganiadau Aelodau'r Cabinet.

Rhoddodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Huw Thomas y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am y sefyllfa bresennol yng Nghaerdydd mewn perthynas â chyfyngiadau cloi posibl COVID-19 y ddinas.

Derbyniwyd pymtheg o gwestiynau ar sail wleidyddol gyfrannol gan y Cynghorwyr canlynol:

Y Cynghorydd Mia Rees  
Y Cynghorydd Robert Hopkins  
Y Cynghorydd Emma Sandrey  
Y Cynghorydd Dilwar Ali

Y Cynghorydd Keith Parry  
Y Cynghorydd Adrian Robson  
Y Cynghorydd Rodney Berman  
Y Cynghorydd Lyn Hudson  
Y Cynghorydd Fenella Bowden  
Y Cynghorydd Dianne Rees  
Y Cynghorydd Joe Carter  
Y Cynghorydd Jayne Cowan  
Y Cynghorydd Norma Mackie

Ymatebodd Arweinydd y Cyngor ac Aelodau'r Cabinet i gwestiynau a godwyd mewn perthynas â'r canlynol:

- Addysg i blant wrth hunan-ynysu.
- Deunyddiau glanhau sy'n cael eu cyflenwi i ysgolion a chost glanhau
- Gwasanaethau Ieuenctid
- Llygredd ac ansawdd aer
- Plismona ffin Caerdydd pe bai cyfyngiadau cloi lleol yn cael eu gorfodi
- Tracio, olrhain a phrofi.
- Storio Dŵr Gwyllt
- Parcio ar gyfer y cyfleuster 400 uned newydd yn y Mynydd Bychan
- Datgomiynu cyfleuster Calon y Ddraig
- Agor Canolfannau Hamdden
- Stryd y Castell a'r ansawdd aer yng nghanol y ddinas
- Y Gyfnewidfa Lo
- Myfyrwyr sy'n dychwelyd i brifysgolion

Cymerodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Huw Thomas gwestiynau gan Arweinwyr Grŵp, y Cynghorwyr Robson, Taylor a Keith Parry, mewn perthynas â'r posibilrwydd o gyfnod cloi COVID-19 yng Nghaerdydd.

## 72 : HYSBYSIAD O GYNNIG

Cyfeiriodd yr Arglwydd Faer at Reol Gweithdrefn Cyfarfod y Cyngor 22 (I)

Os yw'n ymddangos i'r Cadeirydd nad yw unrhyw Gynnig Cyffredin wedi'i gynnwys yng nghyllideb gymeradwy'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn dan sylw, caiff ei gynnwys o hyd ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod. Fodd bynnag bydd datganiad gan y Cadeirydd yn hyn o beth a nodir y caiff y Cynnig Cyffredin ei ohirio tan gyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor fel y gellir rhoi cyngor cyfreithiol ac ariannol i'r Aelodau cyn i'r cynnig gael ei drafod.

**Gan y byddai costau cynulliad Dinasyddion yn debygol o fod oddeutu £100 mil, caiff y cynnig ei ohirio tan gyfarfod arferol nesaf y Cyngor fel y gellir rhoi cyngor cyfreithiol ac ariannol ysgrifenedig i'r Aelodau cyn i'r cynnig gael ei drafod. Mae'r gost yn cynnwys adnoddau staff, ffioedd i arbenigwyr gyflwyno tystiolaeth, ac ad-daliad i gyfranogwyr incwm isel ac fe'i cyrhaeddwyd ar sail gwybodaeth a adolygwyd gan Gynulliadau Lleol eraill, gan gynnwys Cynulliad**

**Hinsawdd Rhydychen, a gynhaliwyd dros 2 benwythnos ac a gostiodd £200 mil, a Chynulliad Hinsawdd Camden yn 2019 a gostiodd swm tebyg.**

73 : MATERION BRYD

Ni chyflwynwyd unrhyw fusnes bryd yn y cyfarfod.

74 : AELODAETH PWYLLGORAU

Derbyniodd y Cyngor adroddiad i dderbyn enwebiadau a gwneud penodiadau i swyddi gwag pwyllgor cyfredol, fel y nodir yn yr adroddiad ac yn unol â'r dyraniad cymeradwy o seddi a dymuniadau grwpiau gwleidyddol.

PENDERFYNWYD:

CYTUNODD Y Cyngor i'r canlynol:

- I benodi i'r swyddi gwag ar y Pwyllgorau'n unol â'r dyraniad cymeradwy o seddi a dymuniadau Grwpiau'r Pleidiau fel y nodir ar y daflen diwygio.

75 : COFRESTR O BENDERFYNIADAU SWYDDOGION - SMT

Nodwyd

76 : CWESTIYNAU YSGRIFENEDIG

Yn unol â Rheol Gweithdrefn y Cyngor 17 (f), caiff Cwestiynau Ysgrifenedig a dderbyniwyd i'w hystyried, a'r ymateb, eu cynnwys fel cofnod yng nghofnodion y cyfarfod.